Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd (Pen-y-bont ar Ogwr)

I gwmpasu Gweithredu Diwydiannol

A oes gennych brofiad o drin galwadau, gweithio mewn canolfan alwadau neu wasanaeth cwsmeriaid?

A hoffech chi ddod yn Ddiffoddwr Tân Rheoli Ategol?

Cyfraddau cyflog

- Hyd at £12.91 yr awr yn ystod cyfnod yr hyfforddiant cychwynnol
- Hyd at £12.91 yr awr ar gyfer hyfforddiant ad hoc neu ddyletswyddau ychwanegol
- Hyd at £244.03 ar gyfer mynychu'r diwrnod hyfforddi ail-ymgyfarwyddo chwarterol
- Hyd at £244.03 taliad cadw chwarterol yn amodol ar fynychu'r diwrnod hyfforddi ail-ymgyfarwyddo chwarterol.
- **Hyd at £70 yr awr** os cewch eich cyflogi yn ystod gweithredu diwydiannol.

Contract: Contract ategol a fydd yn cynnwys gofynion hyfforddiant

Oriau gwaith: Yn ôl y gofyn i gwmpasu gweithredu diwydiannol a mynychu hyfforddiant a fydd yn cael eu cadarnhau yn ystod cyfweliad.

Mae gan Wasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a De Cymru ddyletswydd statudol i sicrhau darpariaeth Tân ac Achub a darpariaeth mewn Argyfwng i'r cymunedau y mae'n gwasanaethu ynddynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd gostyngiad sylweddol ymhlith staff gwasanaethau fel yn ystod cyfnodau gweithredu diwydiannol

Felly, hoffai'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr sicrhau dibynadwyedd wrth gefnogi trin galwadau brys yn ystod adegau o weithredu diwydiannol.

Mae rôl Diffoddwr Tân cynorthwyol yr Ystafell Reoli yn heriol iawn ac yn werth chweil. Mae'n golygu gweithio mewn amgylchedd dynamig yn ymateb i alwadau 999 a chynnull peiriannau i gefnogi ymateb effeithiol i argyfyngau.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus:

- Weithio mewn amgylchedd disgybledig.
- Peidio â chynhyrfu wrth ddelio â galwadau ffôn gan aelodau o'r cyhoedd sydd mewn trallod.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu effeithiol.
- Casglu'r wybodaeth fanwl briodol.
- Meddu ar sgiliau mewnbynnu data yn gywir ac yn gyflym.
- Gweithio mewn tîm.

.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hyfforddi i lefel o gymhwysedd i gyflawni'r rôl ac efallai y bydd gofyn iddynt weithio gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau'r banc

Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.

Credwn yng ngwir werth gweithlu amrywiol, ac anogwn geisiadau o bob sector yn y gymuned.

I ymgeisio nawr: : Swyddi gwag diweddaraf - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (decymru-tan.gov.uk)

Dyddiad Cau
1 Chwefror 2023